



Bore Sul, Medi 22, 2019



Croeso cynnes i chi gyd y bore 'ma, Mae'r oedfa yn un i'r teulu cyfan yng ngofal Iwan Rowlands a Wyn Jones. Sian Elin sy'n cyfeilio.

Yr Wythnosau Nesaf

Medi 29 - Geraint Rees gydag Eluned Davies-Scott, Elen Griffiths yn cyfeilio

Hydref 6 - Sul Pentref Efail Isaf, Sian yn cyfeilio

Hydref 13 - Y Parchg. Aled Edwards gyda Huw Roberts, Sian yn cyfeilio

Hydref 20 - Sul Cynhaeaf yr Ysgol Sul, Bethan yn cyfeilio yn cyfeilio

Hydref 27- Karen Owen y bardd gydag Emlyn Davies, Eleri Huws yn cyfeilio

BORE SUL NESAF : PWYSIG

Bydd Cymru yn chwarae rygbi yn erbyn Awstralia, (KO 0845) fore Sul nesaf. Mae Eluned, Geraint ac Elen wedi cytuno i ddechrau'r oedfa am 11 o'r gloch yn lle 10.45. Os hoffech weld y gêm mewn cwmni, bydd hi'n cael ei dangos yn y Ganolfan yn fyw, gyda brechwast ar gael yn ystod yr hanner amser (tost, croissant, pain au chocolat, sudd oren, te, coffi). Os ydych yn dod i'r Ganolfan, rhowch wybod trwy Facebook y capel, neu ebost neu decst i 07816341 527 yn dweud faint ohonoch fydd yn dod. Croeso i bawb. Pob elw i fynd at Apêl Madagascar.

Bwcio'r Capel neu'r Ganolfan:
carolinerees2@hotmail.com
neu decstio Caroline ar
07539452130

Teisennau.....

Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r Twmiaid gyda'r cacs wythnos diwethaf. Codwyd bron i £200 at waith Toilet Twinning.



NOS SUL 13 HYDREF

Recordiad o gêm banel newydd Huw Edwards, Hawl i Foli, Tabernacl, Efail Isaf nos Sul 13eg Hydref am 6 p.m. Bydd dau banel yn ceisio ateb cwestiynau fel Pwy gyfansoddodd yr emyndon Rachie? Ym mha gapel canwyd yr Anthem Genedlaethol am y tro cyntaf? Cyfieithiad pwy o Dawel Nos sy'n ymddangos yn Nghaneuon Ffydd? Gwybodaeth, difyrrwch a ffeithiau ffwrdd â hi am fyd yr emyn a'r emyndon. Plis dewch gyda'ch ffrindiau

APÊL MADAGASCAR

. Mae ein casgliad ni bron â chyrraedd £3,000 ac mae'r apêl yn dal ar agor.... Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cyfrannu'n barod.

Emynau a Chaneuon Atodol

Mae'r Pwyllgor Cerdd yn awyddus iawn i greu casgliad o ganeuon crefyddol, emynau ac emyn donau atodol i'r rhai sydd yn Caneuon Ffydd er mwyn ychwanegu at y dewis sydd ar gael yn ein hoedfaon o Sul i Sul. I gyfoethogi'r atodiad arfaethedig, byddai derbyn awgrymiadau gan aelodau'r gynulleidfa yn gyfraniad pwysig. Dyma pam fod y pwyllgor yn awyddus iawn eich bod yn llenwi a dychwelyd yr holiadur a ddsbarthwyd gyda rhifyn Gorffennaf o Tafod y Tab, a hynny erbyn diwedd mis Medi. Cofiwch, does dim rhaid i chi ateb bob cwestiwn yn yr holiadur – byddai nodi un emyn, emyn dôn neu gân grefyddol yn gyfraniad fyddai'n cael ei groesawu'n fawr. Diolch.

ELUSENNAU 2019

Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf, Adref, Ysgol Tŷ Coch, Cymorth i Ferched Cymru & CRICA (ymchwilio i Glefyd Crohn a chefnogi dioddefwyr ifanc).

HELPU'R TRYSORYDD GYDA SIECIAU

Ar fwy nag un achlysur yn ddiweddar mae'r banciau wedi gwrthod derbyn siec am nad yw'r geiriad arno yn cydymffurfio air-am-air gydag enw swyddogol y cyfrif.

Felly mae Arwyn Jones (ein trysorydd) yn gofyn yn garedig am i bob un ohonom ni i gofio pan fyddwn yn ysgrifennu siec yn y dyfodol i wneud y swm yn daladwy i:

CAPEL Y TABERNAACL, CYF.

Diolch



15 Hydref - October 15

Merched y Tab

Dydd Mawrth, 15 Hydref, Diwrnod "Shwmae Sumae!". Yn yr Hen Llyfrgell, Porth, am 10.30. Cyfle i sgwrsio gyda grŵp o ddysgwyr.

Dyfyniad y Dydd

'Mae'r efengyl yn galw, nid am goalisiwn o bobl sy'n trio cadw pobl allan. Mae'n galw yn hytrach am deulu graslon o bechaduriaid sydd wedi ymrwymo i chwalu muriau, agor drysau a gweiddi "Croeso, dewch i mewn. Mae yma fara a gwin. Dewch i fwyta gyda ni a sgwrsio!". Nid teyrnas i'r cyfiawn yw hon ond teyrnas i'r newynog' **Rachel Held Evans, 1981-2019**

Cyfundeb Dwyrain Morgannwg Cwrdd Chwarter

Ymweliad Llywydd yr Undeb
Y Parchedig
Jill-Hailey Harries

7 y.h. Mercher 25 Medi 2019
Capel Hermon, Treorci
Croeso Cynnes i Bawb

CASGLIADAU DILLAD A NWYDDAU

Mae'r casgliadau ar gyfer Adref, Nantgwyn, a Cwtch yn dal yn weithredol eleni. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am eich cyfraniadau cyson i'r elusennau allweddol yma. Mae stff newydd bron pob wythnos. Diolch.